OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 34 (Cy. 9)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021

| | | |
|---|---|---|
| *Gwnaed* | - - - - | *13 Ionawr 2021* |
| *Coming into force* | - - | *14 Ionawr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) a pharagraffau 2 i 7 o Atodlen 1B iddi.

Yn unol ag adran 13A(8) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a wneir ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

(4) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor" yw cynllun a wneir gan awdurdod bilio yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013(**3**), neu'r cynllun sy'n gymwys yn ddiofyn yn rhinwedd paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013**

**2.** Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 10.

(**1**) 1992 p. 14. Amnewidiwyd adran 13A gan adran 10(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17) a mewnosodwyd Atodlen 1B gan adran 10(2) o'r Ddeddf honno ac Atodlen 4 iddi.

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 13(A)(8) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), fel y'i diwygiwyd gan adran 9 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1) ac Atodlen 1 iddi.

(**3**) O.S. 2013/3029 (Cy. 301), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20), O.S. 2018/14 (Cy. 7), O.S. 2019/11 (Cy. 5) ac O.S 2020/16 (Cy. 2).

**3.** Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "person cymwys", ar ôl "Cronfa Argyfwng We Love Manchester" mewnosoder ", Cynllun Digolledu Windrush";

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "Cynllun Digolledu Windrush" ("*the Windrush Compensation Scheme*") yw—

(a) y cynllun o'r enw "the Windrush Compensation Scheme"(**4**) a weithredir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddiben digolledu unigolion sydd wedi dioddef colled mewn cysylltiad â'r ffaith nad ydynt yn gallu dangos bod ganddynt statws cyfreithlon yn y Deyrnas Unedig; a

(b) y polisi o'r enw "Windrush Scheme: Support in urgent and exceptional circumstances"(**5**) a weithredwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddiben digolledu unigolion yr oedd angen iddynt, am resymau brys ac am resymau eithriadol, gael cymorth cyn i'r cynllun y cyfeirir ato ym mharagraff (a) o'r diffiniad hwn ddod yn weithredol;".

**4.** Yn Atodlen 1 (penderfynu cymhwystra am ostyngiad: pensiynwyr)—

(1) ym mharagraff 3 (didyniadau annibynyddion: pensiynwyr)—

(a) yn is-baragraff (1)(a) yn lle "£14.65" rhodder "£15.35";

(b) yn is-baragraff (1)(b) yn lle "£4.85" rhodder "£5.10";

(c) yn is-baragraff (2)(b) yn lle "£9.75" rhodder "£10.20";

(d) yn is-baragraff (2)(c) yn lle "£12.25" rhodder "£12.85";

(2) ym mharagraff 10 (ystyr "incwm": pensiynwyr) yn is-baragraff 1(j) mewnosoder "(xx) credyd cynhwysol;".

**5.** Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensiynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfans personol)—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£173.80" a "£187.80" rhodder "£177.10" ac "£191.15" yn y drefn honno;

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£265.20" a "£280.85" rhodder "£270.30" a "£286.05" yn y drefn honno;

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£265.20" a "£91.40" rhodder "£270.30" a "£93.20" yn y drefn honno;

(iv) yn is-baragraff (4) yn lle "£280.85" a "£93.05" rhodder "£286.05" a "£94.90" yn y drefn honno;

(b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£66.95" ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder "£67.30" ac yn lle "£133.90" rhodder "£134.60";

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£26.60" rhodder "£26.67";

(**4**) Mae Rheolau Cynllun Digolledu Windrush wedi eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/925385/Windrush_Compensation_Scheme_Full_Rules.pdf. Gellir cael copi caled ar gais drwy ysgrifennu at yr Is-adran Trethiant Lleol, Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2 Marsham Street, Llundain SW1P 4DF. Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch Cynllun Digolledu Windrush ar https://www.gov.uk/guidance/windrush-compensation-scheme.

(**5**) Gellir gweld y polisi hwn ar https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/916834/Windrush_Scheme_-_Support_in_Urgent_and_Exceptional_Circumstances.pdf. Gellir cael copi caled ar gais drwy ysgrifennu at yr Is-adran Trethiant Lleol, Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2 Marsham Street, Llundain SW1P 4DF.

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£65.52" rhodder "£65.94";

(iv) yn is-baragraff (4) yn lle "£37.50" rhodder "£37.70".

**6.** Yn Atodlen 5 (diystyriadau cyfalaf: pensiynwyr), ym mharagraff 16(1)(a), ar ôl "Cronfa Argyfwng We Love Manchester" mewnosoder ", Cynllun Digolledu Windrush".

**7.** Yn Atodlen 6 (penderfynu cymhwystra am ostyngiad o dan gynllun awdurdod, swm unrhyw ostyngiad, a chyfrifo incwm a chyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr) ym mharagraff 5 (didyniadau annibynyddion: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yn is-baragraff (1)(a) yn lle "£14.65" rhodder "£15.35";

(b) yn is-baragraff (1)(b) yn lle "£4.85" rhodder "£5.10";

(c) yn is-baragraff (2)(b) yn lle "£9.75" rhodder "£10.20";

(d) yn is-baragraff (2)(c) yn lle "£12.25" rhodder "£12.85".

**8.** Yn Atodlen 7 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£79.20" ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder "£79.60" ac yn lle "£62.75" rhodder "£63.05";

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£79.20" rhodder "£79.60";

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£124.45" rhodder "£125.05";

(b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£34.95" a "£49.80" rhodder "£35.10" a "£50.05" yn y drefn honno;

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£66.95" ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder "£67.30" ac yn lle "£133.90" rhodder "£134.60";

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£65.52" rhodder "£65.94";

(iv) yn is-baragraff (4) yn lle "£37.50" rhodder "£37.70";

(v) yn is-baragraff (5) yn lle "£26.60", "£17.10" a "£24.50" rhodder "£26.67", "£17.20" a "£24.60" yn y drefn honno;

(c) yn Rhan 6 (symiau'r elfennau)—

(i) ym mharagraff 23 yn lle "£29.35" rhodder "£29.70";

(ii) ym mharagraff 24 yn lle "£39.20" rhodder "£39.40".

**9.** Yn Atodlen 10 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) ym mharagraff 29(1), ar ôl "Cronfa Argyfwng We Love Manchester" mewnosoder ", Cynllun Digolledu Windrush";

(b) ym mharagraff 29(7), ar ôl "Cronfa Argyfwng We Love Manchester" mewnosoder ", Cynllun Digolledu Windrush".

**10.** Yn Atodlen 13 (pob ceisydd: materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cynllun awdurdod —materion eraill), ym mharagraff 5(7)(a)(ii), ar ôl "Cronfa Argyfwng We Love Manchester" mewnosoder ", Cynllun Digolledu Windrush".

**Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013**

**11.** Mae'r cynllun a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013(**6**) wedi ei ddiwygio yn unol â rheoliadau 12 i 19.

**12.** Ym mharagraff 2(1) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "person cymwys", ar ôl "Cronfa Argyfwng We Love Manchester" mewnosoder ", Cynllun Digolledu Windrush";

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "Cynllun Digolledu Windrush" ("*the Windrush Compensation Scheme*") yw—

(a) y cynllun o'r enw "the Windrush Compensation Scheme"(**7**) a weithredir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddiben digolledu unigolion sydd wedi dioddef colled mewn cysylltiad â'r ffaith nad ydynt yn gallu dangos bod ganddynt statws cyfreithlon yn y Deyrnas Unedig; a

(b) y polisi o'r enw "Windrush Scheme: Support in urgent and exceptional circumstances"(**8**) a weithredwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddiben digolledu unigolion yr oedd angen iddynt, am resymau brys ac am resymau eithriadol, gael cymorth cyn i'r cynllun y cyfeirir ato ym mharagraff (a) o'r diffiniad hwn ddod yn weithredol;".

**13.** Ym mharagraff 28 (didyniadau annibynyddion: pensiynwyr a phersonau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yn is-baragraff (1)(a) yn lle "£14.65" rhodder "£15.35";

(b) yn is-baragraff (1)(b) yn lle "£4.85" rhodder "£5.10";

(c) yn is-baragraff (2)(b) yn lle "£9.75" rhodder "£10.20";

(d) yn is-baragraff (2)(c) yn lle "£12.25" rhodder "£12.85".

**14.** Ym mharagraff 36 (ystyr "incwm": pensiynwyr) yn is-baragraff 1(j) mewnosoder "(xx) credyd cynhwysol;".

**15.** Ym mharagraff 111(7)(a)(ii), ar ôl "Cronfa Argyfwng We Love Manchester" mewnosoder ", Cynllun Digolledu Windrush".

**16.** Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensiynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£173.80" a "£187.80" rhodder "£177.10" ac "£191.15" yn y drefn honno;

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£265.20" a "£280.85" rhodder "£270.30" a "£286.05" yn y drefn honno;

(**6**) O.S. 2013/3035 (Cy. 303), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20), O.S. 2018/14 (Cy. 7), O.S. 2019/11 (Cy. 5) ac O.S 2020/16 (Cy. 2).

(**7**) Mae Rheolau Cynllun Digolledu Windrush wedi eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/925385/Windrush_Compensation_Scheme_Full_Rules.pdf. Gellir cael copi caled ar gais drwy ysgrifennu at yr Is-adran Trethiant Lleol, Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2 Marsham Street, Llundain SW1P 4DF. Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch Cynllun Digolledu Windrush ar https://www.gov.uk/guidance/windrush-compensation-scheme.

(**8**) Gellir gweld y polisi hwn ar https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/916834/Windrush_Scheme_-_Support_in_Urgent_and_Exceptional_Circumstances.pdf. Gellir cael copi caled ar gais drwy ysgrifennu at yr Is-adran Trethiant Lleol, Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2 Marsham Street, Llundain SW1P 4DF.

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£265.20" a "£91.40" rhodder "£270.30" a "£93.20" yn y drefn honno;

(iv) yn is-baragraff (4) yn lle "£280.85" a "£93.05" rhodder "£286.05" a "£94.90" yn y drefn honno;

(b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£66.95" ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder "£67.30" ac yn lle "£133.90" rhodder "£134.60";

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£26.60" rhodder "£26.67";

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£65.52" rhodder "£65.94";

(iv) yn is-baragraff (4) yn lle "£37.50" rhodder "£37.70".

**17.** Yn Atodlen 3 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£79.20" ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder "£79.60" ac yn lle "£62.75" rhodder "£63.05";

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£79.20" rhodder "£79.60";

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£124.45" rhodder "£125.05";

(b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£34.95" a "£49.80" rhodder "£35.10" a "£50.05" yn y drefn honno;

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£66.95" ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder "£67.30" ac yn lle "£133.90" rhodder "£134.60";

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£65.52" rhodder "£65.94";

(iv) yn is-baragraff (4) yn lle "£37.50" rhodder "£37.70";

(v) yn is-baragraff (5) yn lle "£26.60", "£17.10" a "£24.50" rhodder "£26.67", "£17.20" a "£24.60" yn y drefn honno;

(c) yn Rhan 6 (symiau'r elfennau)—

(i) ym mharagraff 23 yn lle "£29.35" rhodder "£29.70";

(ii) ym mharagraff 24 yn lle "£39.20" rhodder "£39.40".

**18.** Yn Atodlen 8 (diystyriadau cyfalaf: pensiynwyr), ym mharagraff 16(1)(a), ar ôl "Cronfa Argyfwng We Love Manchester" mewnosoder ", Cynllun Digolledu Windrush".

**19.** Yn Atodlen 9 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) ym mharagraff 29(1), ar ôl "Cronfa Argyfwng We Love Manchester" mewnosoder ", Cynllun Digolledu Windrush";

(b) ym mharagraff 29(8), ar ôl "Cronfa Argyfwng We Love Manchester" mewnosoder ", Cynllun Digolledu Windrush".

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

13 Ionawr 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Cynllun Diofyn") a wnaed o dan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Atodlen 1B iddi.

Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod bilio yng Nghymru wneud cynllun sy'n pennu'r gostyngiadau sydd i fod yn gymwys i symiau o'r dreth gyngor sy'n daladwy gan bersonau, neu gan ddosbarthau o bersonau, y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod mewn angen ariannol. Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig hefyd yn nodi'r materion y mae rhaid eu cynnwys mewn cynllun o'r fath.

Mae'r Rheoliadau Cynllun Diofyn yn nodi cynllun a fydd yn cael effaith, mewn cysylltiad ag anheddau sydd wedi eu lleoli yn ardal awdurdod bilio, os yw'r awdurdod yn methu â gwneud ei gynllun ei hun.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a'r Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Mae'r diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig gan reoliadau 3, 6, 9 a 10 yn darparu ar gyfer sut y mae taliadau o dan "Cynllun Digolledu Windrush" i gael eu cymryd i ystyriaeth wrth bennu cymhwystra ar gyfer gostyngiad a maint y gostyngiad. Gwneir yr un diwygiadau i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 12, 15, 18 a 19.

Mae'r diwygiad a wneir i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig gan reoliad 4(2) yn darparu ar gyfer sut y mae taliadau'r credyd cynhwysol i hawlwyr sydd wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso ar gyfer credyd pensiwn y wladwriaeth i gael eu cymryd i ystyriaeth wrth bennu cymhwystra ar gyfer gostyngiad a maint y gostyngiad. Gwneir yr un diwygiad i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliad 14.

Mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a wneir gan reoliadau 4(1), 5, 7 ac 8 yn cynyddu rhai o'r ffigyrau a ddefnyddir wrth gyfrifo a oes gan berson hawl i gael gostyngiad ai peidio, a swm y gostyngiad hwnnw. Mae'r ffigyrau uwchraddedig yn ymwneud â didyniadau annibynyddion (sef addasiadau i uchafswm y gostyngiad y mae hawl gan berson i'w gael, er mwyn cymryd i ystyriaeth oedolion sy'n byw yn yr annedd nad ydynt yn ddibynyddion y ceisydd); ac â'r swm cymwysadwy mewn perthynas â chais am ostyngiad (sef y swm y cymherir incwm ceisydd ag ef, er mwyn pennu swm y gostyngiad y mae hawl gan y ceisydd i'w gael). Gwneir yr un diwygiadau i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 13, 16 a 17.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.